# Safonau Dilysadwy Tir Gofal

## Safonau a chanllawiau dilysadwy ar gyfer dosbarthu methiannau **Tir Gofal** yng Nghymru

**Fersiwn 1.0 2013**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| **Rheol** | | | |
|---|---|---|---|
| 1.a) Dylid cadw'r ffiniau caeau traddodiadol fel perthi/gwrychoedd, waliau sych, cloddiau, ffensys llechi, pyst giatiau cerrig, coed unigol, cwterydd a chorlannau defaid a chamfeydd dringo a nodweddion cysylltiedig, heb eu difrodi. | | | |
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Mae ffiniau caeau traddodiadol a'u nodweddion cysylltiedig (gweler 1.a uchod am restr) wedi'u dymchwel neu eu difrodi.**<br><br>Ni ddylid creu bylchau neu agoriadau newydd heb ganiatâd ymlaen llaw.<br><br>Peidiwch â dymchwel unrhyw ran o ffin draddodiadol a enwir uchod, hyd yn oed os yw wedi dirywio, heb ganiatâd ymlaen llaw. | **Gweler Arferion Ffermio Da neu Drawsgydymffurfio** | | |
| **Tystiolaeth nad yw ffiniau traddodiadol a nodweddion cysylltiedig (gweler 1.a uchod) sydd wedi'u marcio ar fap 1 y cytundeb, a oedd yn cadw stoc allan ar ddechrau'r cytundeb, wedi cael eu trwsio a'u hadnewyddu â defnyddiau addas ac arddulliau traddodiadol lleol ac nad ydynt felly wedi'u cadw mewn cyflwr sy'n cadw stoc allan.**<br><br>Sylwer.<br>Chwilio am y canlynol<br>Bylchau bychain yn y wal wedi'u trwsio trwy eu hailadeiladu â cherrig neu blygu a/neu ailblannu â stoc planhigion o dras lleol.<br><br>Erydiad gan stoc a pheiriannau fferm, a waliau, perthi, cloddiau, ffensys llechi, pyst giat, coed unigol, cwterydd defaid, camfeydd dringo sy'n cael eu cadw o dan Gytundeb Tir Gofal wedi'u symud, felly nid ydynt wedi'u cadw mewn cyflwr cadw stoc. | Ar ddarnau unigol<br><br>**Isel:** Hyd at ddarn 10m, neu gasgliad o fwy na 20m o fylchau<br><br>**Canolig:** un bwlch o 11-50m, neu gasgliad o fwy na 50m o fylchau<br><br>**Uchel:** un bwlch o >50m, neu gasgliad o fwy na 100m o fylchau | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1** e.e. ailadeiladu wal, camfa ddringo neu ffens lechi.<br><br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod coed perthi sy'n fwy na 10cm (4") mewn diamedr at uchder y frest wedi'u tynnu heb ganiatâd ymlaen llaw.**<br><br>**Sylwer:** efallai y bydd angen trwydded cwympo'r Comisiwn Coedwigaeth neu ganiatâd Parc Cenedlaethol neu awdurdod lleol.<br><br>**Y gofyn sylfaenol: Cwympo coed a Chadw coed – GAEC J.** | **Isel:** diamedr y goeden rhwng 4 a 12 modfedd<br><br>**Canolig:** diamedr y goeden yn fwy na 12 modfedd ond yn llai na 36 modfedd<br><br>**Uchel:** diamedr y goeden yn fwy na 36 modfedd<br><br>**Uchel:** pan na chafwyd trwydded gwympo neu bod Gorchymyn Cadw Coed wedi'i dorri | **Maint 1 =** 1 goeden<br>**Maint 2 =** 2-3 coeden<br>**Maint 3 =** 4-5 coeden<br>**Maint 4 =** 6+ coeden | **Modd ei gywiro 2** = coed â diamedr o 4-6 modfedd<br><br>**Parhaol** = coed â diamedr o 6 modfedd+ |

| Disgrifiad o Dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Wedi peidio â gadael 25% o'r perthi heb eu torri mewn blwyddyn.**<br><br>Dros 75% o'r perthi ar y fferm wedi'u tocio - nid oeddynt yn ffinio â ffyrdd ac felly nid oedd angen eu tocio bob blwyddyn. | **Isel =** Rhwng 15-25% wedi'u gadael heb eu torri<br><br>**Canolig** = Yr holl berthi wedi'u torri neu lai na 15% wedi'u gadael heb eu torri | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Tystiolaeth bod perthi wedi'u hadfer, eu plygu neu eu bondocio yn y cyfnod gwaharddedig (31 Mawrth - 31 Awst), heb eithriadau ar gyfer hyfforddi a chystadlaethau.**<br><br>**GAEC E - Ffiniau, os cafodd y cytundeb ei arwyddo ar ôl 01/01/2007** | **Isel:** un darn o berth wedi'i adfer, ei blygu neu ei fondocio.<br><br>**Canolig:** mwy nag un darn o berth wedi'i adfer, ei blygu neu ei fondocio.<br><br>**Uchel:** wedi parhau i adfer, plygu neu bondocio perth ar ôl cael gorchymyn i ymatal. Gallai hyn gael ei ystyried yn fwriadol. | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Parhaol:** os ydy'r berth wedi marw |
| **Tystiolaeth bod ffustiau ar dractor wedi'u defnyddio i dorri perthi â thyfiant sy'n fwy na 2.5cm (1") mewn diamedr.** | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad ydych wedi gadael i'r perthi sy'n weddill dyfu'n rhesi o lwyni aeddfed na/neu'n lleiniau cysgodi lle cytunwyd i hynny.** | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1** |

1.b) Rhimyn o Dir wrth Ffiniau Caeau - hwn yw'r rhimyn 1 metr o led o dir wrth fôn ffiniau caeau traddodiadol.

Peidiwch â'i aredig na'i drin, na gwasgaru gwrtaith, plaladdwr, chwynladdwr na chalch arno.

Peidiwch â gwasgaru calch nac unrhyw sylwedd arall arno i newid asidedd y pridd.

Peidiwch â gwasgaru gwrtaith anorganig nac organig.

Peidiwch â thaenu chwynladdwr neu blaladdwr arall oni bai eich bod yn trin yn unigol ddanadl poethion, marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan, rhododendron, neu Jac y Neidiwr trwy eu sbot-drin neu drwy ddefnyddio weipar.

| Disgrifiad o Dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth nad yw'r rhimyn o 1 metr yn cael ei gynnal**<br><br>Mae'r rhimyn wrth fôn ffiniau traddodiadol wedi'i aredig a'i drin.<br><br>**Nodyn: Tramgwydd trawsgydymffurfio posibl GAEC N: Cadw Nodweddion y Dirwedd ar ôl 01/01/2007**<br><br>Mae calch neu sylwedd arall sy'n newid asidedd y pridd wedi'i wasgaru.<br>neu<br>Mae gwrtaith anorganig neu organig wedi'i wasgaru.<br>neu<br>Mae chwynladdwr a phlaladdwr wedi'u taenu, ac nid at ddiben trin planhigion unigol. | **Isel:**1 parsel<br><br>**Canolig:** 2 barsel neu fwy | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| 1.c) Coed<br><br>Rhaid cadw coed unigol gan gynnwys coed perthi a grwpiau bychain o goed.<br><br>Rhaid cadw coed marw oni bai eu bod yn achosi perygl neu rwystr.<br><br>Rhaid osgoi difrod i goed, a phlanhigion ac anifeiliaid cysylltiedig wrth wneud gwaith fferm, fel sgeintio, llosgi a defnyddio peiriannau. | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth bod coed unigol mewn perthi ac o fewn grwpiau bychain o goed wedi'u torri / difrodi.** | **Isel:** diamedr y goeden rhwng 4 a 12 modfedd<br>**Canolig:** diamedr y goeden yn fwy na 12 modfedd ond yn llai na 36 modfedd<br>**Uchel:** diamedr y goeden yn fwy na 36 modfedd | **Maint 1 =** 1 goeden<br>**Maint 2 =** 2-3 coeden<br>**Maint 3 =** 4-5 coeden<br>**Maint 4 =** 6+ coeden | **Modd ei gywiro 2**<br><br>**Parhaol:** os ydy'r coed wedi marw |
| **Tystiolaeth bod coed marw nad oedd yn berygl nac yn rhwystr wedi'u symud.<br>e.e. yn bell o drac mewn coedlan** | **Isel:** diamedr y goeden rhwng 4 a 12 modfedd<br>**Canolig:** diamedr y goeden yn fwy na 12 modfedd ond yn llai na 36 modfedd<br>**Uchel:** diamedr y goeden yn fwy na 36 modfedd | **Maint 1 =** 1 goeden<br>**Maint 2 =** 2-3 coeden<br>**Maint 3 =** 4-5 coeden<br>**Maint 4 =** 6+ coeden | **Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod gwaith fferm fel drifft sgeintio, tanau ac ati wedi difrodi coed, a phlanhigion ac anifeiliaid cysylltiedig.** | **Isel:** diamedr y goeden rhwng 4 a 12 modfedd<br>**Canolig:** diamedr y goeden yn fwy na 12 modfedd ond yn llai na 36 modfedd<br>**Uchel:**diamedr y goeden yn fwy na 36 modfedd **a/neu** aflonyddwyd ar fywyd gwyllt | **Maint 1 =** 1 goeden<br>**Maint 2 =** 2-3 coeden<br>**Maint 3 =** 4-5 coeden<br>**Maint 4 =** 6+ coeden | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| 1.d) Nodweddion creigiog a thirffurfiau (gan gynnwys clogwyni, sgri, creigiau a glannau graean mewn afonydd).<br>Mae nodweddion daearegol a thirffurfiau'n nodweddion pwysig yn y tirlun sy'n ein helpu i ddeall newidiadau yn yr hinsawdd a'r ddaeareg, ac maent yn bwysig i fywyd gwyllt.<br><br>Ni ddylid codi creigiau, sgri, tywod, graean, clai na mawn heb ganiatâd swyddog y prosiect, yr adran gynllunio neu'r Parc Cenedlaethol ymlaen llaw.<br><br>Ni ddylid cadw unrhyw wrteithiau nac unrhyw wastraff arall o'r fferm ar frigiadau creigiau, sgri na graean.<br><br>Ni ddylid defnyddio unrhyw wrtaith anorganig nac organig, calch, chwynladdwr na phlaladdwr arall o fewn 2 fetr i unrhyw frigiadau creigiau, sgri na graean, oni bai'ch bod yn sbot-drin chwyn hysbysadwy. | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth bod creigiau a thirffurfiau sy’n cael eu gwarchod wedi'u codi heb ganiatâd Tir Gofal neu'r awdurdod perthnasol.** | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>Modd adfer/adnewyddu'r nodwedd.<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod tail a gwastraff arall o'r fferm yn cael eu storio ar y nodwedd greigiog neu'r tirffurf.** | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod gwrtaith anorganig neu organig, calch, chwynladdwr neu blaladdwr arall wedi'i wasgaru o fewn 2 fetr i frigiadau creigiau, graean neu sgri, ac nid er mwyn sbot-drin chwyn hysbysadwy.** | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

1.e) Sbwriel

Rhaid cadw'r fferm yn rhydd o sbwriel, sgrap, hen beiriannau ac offer a rhaid cael gwared arnyn nhw mewn modd cyfrifol (h.y. i iard hen heyrn neu safle claddu sbwriel).

Cyn talu taliadau rheoli (erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf ), bydd angen sicrhau bod pob eitem sydd wedi'i farcio ag E coch ar fap 1 y cytundeb wedi cael ei glirio.

| Disgrifiad o Dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth bod sbwriel ar y fferm ac nad yw yno i'w storio ac nad yw'n disgwyl cael ei gludo ymaith.** | **Isel:** Yn effeithio ar hyd at 9 parsel<br><br>**Canolig:** Yn effeithio ar fwy na 9 parsel | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>Mae modd cael gwared ar yr eitemau o fewn y flwyddyn honno o fewn amserlen addas. |
| **Nid yw'r eitemau sydd wedi'u marcio ag E coch ar fap 1 y cytundeb wedi'u clirio.** | **Uchel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>Mae modd cael gwared ar yr eitemau o fewn y flwyddyn honno o fewn amserlen addas. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.) Mae nodweddion dŵr, fel ffosydd, nentydd, afonydd, pyllau a llynnoedd fel arfer yn llawn o fywyd gwyllt, maent yn aml yn bwysig o ran y tirlun ac archeoleg/hanes a gallent fod yn bwysig yn economaidd am eu bod yn cyflenwi dŵr i amaethyddiaeth ac i bobl, ac fel pysgodfeydd. Dyna pam mae'n hanfodol cadw'r cyflenwad dŵr mewn cyflwr cystal â phosibl.<br><br>Ni ddylid defnyddio unrhyw fath o wrtaith, gwastraff o'r tu allan i'r fferm, calch, plaladdwyr nac unrhyw gemegion eraill o fewn 1 metr i nodwedd dŵr<br><br>Ni ddylid gwasgaru slyri, tail buarth nac unrhyw wrtaith organig arall o fewn 10 metr i nodwedd dŵr. | | | |
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Nid yw'r nodweddion dŵr wedi'u cynnal na'u diogelu rhag difrod (e.e. mae tail, gwrtaith, cemegion eraill a drifft sgeintio yn cael eu golchi iddynt).**<br><br>**Arferion Ffermio Da cyn 01/01/07 - Y cynllun ar ôl 01/01/07** | **Uchel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Mae stoc wedi pystalad (sathru) neu difrodi (trwy bori) nodweddion dŵr, glennydd a llystyfiant glan dŵr, ac eithrio'r mannau dyfrhau y cytunwyd arnynt gyda Swyddog y Prosiect.**<br><br>**Gofyn sylfaenol: GB – Pridd yn cael ei olchi i gyrsiau dŵr oherwydd stablad (sathru) y pridd.**<br><br>**Wedi'i arwyddo ar ôl 01/01/07 Trawsgydymffurfio** | **Isel:** Hyd at 10m<br><br>**Canolig:**<br>10 – 50m<br><br>**Uchel:** 50m+<br><br>**Uchel:** tystiolaeth bod pridd yn cael ei olchi i gyrsiau dŵr oherwydd stablad (sathru) y pridd. | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| Disgrifiad o Dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth bod gwrtaith, gwastraff o'r tu allan i'r fferm, calch, plaladdwyr a chemegion eraill wedi'u gwasgaru o fewn 1 metr i nodwedd dŵr.** | **Uchel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>Dim tystiolaeth o ewtroffigedd na bod anifeiliaid na phlanhigion wedi marw.<br><br>**Modd ei gywiro 2**<br>Tystiolaeth o ewtroffigedd a bod anifeiliaid a phlanhigion wedi marw.<br><br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod slyri, dom neu wrtaith organig arall wedi'i wasgaru o fewn 10 metr i gwrs dŵr.**<br><br>**Cytundeb wedi'i lofnodi ar ôl 01/01/07- Trawsgydymffurfio** | **Uchel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>Dim tystiolaeth o ewtroffigedd na bod anifeiliaid na phlanhigion wedi marw.<br><br>**Modd ei gywiro 2**<br>Tystiolaeth o ewtroffigedd a bod anifeiliaid a phlanhigion wedi marw.<br><br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod cyrsiau dŵr gan gynnwys dŵr wyneb, dyfrhaenau a dŵr ogofâu wedi'u llygru.**<br><br>**Sylwer: Tramgwydd Trawsgydymffurfio posibl.** | **Uchel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>**Modd ei gywiro 2**<br>Dylai ymadfer ymhen amser os na fydd achos arall o lygru dros oes y cytundeb.<br><br>**Parhaol** |

| 3.) Lefel stocio - Ni ddylid cynyddu'r lefelau stocio cyffredinol ar dir sydd dan gytundeb Tir Gofal dros y lefel a oedd yn bresennol cyn dechrau'r cytundeb Tir Gofal. | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth bod nifer y da byw wedi mynd dros y nifer a bennwyd yn adran fferm gyfan y cytundeb.** | **Isel:** Hyd at 25% yn fwy na'r UDB/ha a bennwyd<br><br>**Canolig:** 25-50% yn fwy na'r UDB/ha a bennwyd<br><br>**Uchel:** >50% yn fwy na'r UDB/ha a bennwyd | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>Rhaid gwerthu'r da byw dros ben o fewn amserlen addas oni bai bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ei chaniatâd i ailbennu'r lefelau. |
| **Tystiolaeth nad yw nifer y stoc wedi'i ostwng yn unol â'r hyn y cytunwyd arno yn y cynllun Rheoli yn 6 mis cyntaf y cytundeb.**<br><br>**Sylwer:**Dylid dilysu hyn trwy archwilio cofnodion y ddiadell, allbrint y BCMS a thrwyddedau symud. | **Isel:** Hyd at 25% o'r UDB/ha a bennwyd<br><br>**Canolig:** 25-50% o'r UDB/ha a bennwyd<br><br>**Uchel:** >50% o'r UDB/ha a bennwyd | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>Rhaid gwerthu'r da byw dros ben mewn 6 wythnos. |

| 3.1 Rheoli Cynefinoedd a Lefelau Stocio<br>Rhestr o'r anifeiliaid a ganiateir:<br>Buchod godro: Gwartheg eidion: Buchod Sugno: Defaid: Ceffylau | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth bod stoc arall heblaw'r stoc sy'n cael ei restru yn 3.1 uchod ar y fferm sy'n pori cynefinoedd heb ganiatâd ymlaen llaw.**<br><br>**Sylwer.** Mae'n berffaith dderbyniol pori creaduriaid eraill fel moch, ieir, geifr, ceirw ac ati ar dir wedi'i wella - cyn belled nad yw'r tir wedi'i roi yn un o'r opsiynau 24-43. | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | Modd ei gywiro 1<br>Modd ei gywiro 2<br>**Parhaol** |

| **4.**Rhywogaethau sy'n cael eu Gwarchod (Moch Daear, Pathewod, Ystlumod, Adar, Llygod Bengron y Dŵr, Dyfrgwn a phlanhigion wedi'u gwarchod).<br><br>Cadarnhau nad oes tystiolaeth eu bod wedi cael eu haflonyddu, eu lladd, eu cymryd na'u niweidio yn anghyfreithlon.<br><br>Cadarnhau nad oes tystiolaeth chwaith bod mannau sy'n cael eu defnyddio fel cysgodfa neu loches gan y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod wedi'u difrodi, eu cau na'u difetha. | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth bod rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod yn cael eu haflonyddu, eu lladd, eu cymryd neu eu niweidio yn anghyfreithlon.**<br><br>**Sylwer:** Mae aflonyddu yn golygu bod tystiolaeth wedi'i chael yn ystod ymweliad bod mannau sy'n cael eu defnyddio fel cysgodfa neu loches gan y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod wedi'u difrodi, eu cau neu eu difetha.<br><br>**Mae hwn yn dramgwydd trawsgydymffurfio mewn cytundebau gafodd eu harwyddo ar ôl 01/01/07, os ydynt wedi'u hawdurdodi neu beidio. Dylid ei gofnodi fel amod Trawsgydymffurfio ac o'r Cynllun os cafodd ei arwyddo cyn 01/01/07.**<br>**Nodyn i'r arolygydd:** Cadarnhewch gyda deddfwriaeth trawsgydymffurfio. Rhaid dweud wrth yr awdurdodau. | **Uchel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| **Rhywogaethau Estron** | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth bod anifail, aderyn neu blanhigyn estron yn cael ei gyflwyno heb ganiatâd swyddog prosiect Tir Gofal.**<br><br>**Gofyn sylfaenol: GAEC C – lle nad oes camau rhesymol wedi'u cymryd i reoli chwyn estron rhag lledaenu.**<br><br>**Mae hwn yn dramgwydd trawsgydymffurfio mewn cytundebau gafodd eu harwyddo ar ôl 01/01/07, os ydynt wedi'u hawdurdodi neu beidio. Dylid ei gofnodi fel amod Trawsgydymffurfio ac o'r Cynllun os cafodd ei arwyddo cyn 01/01/07.** | **Uchel**<br><br>**Uchel:** lle bo chwyn estron wedi'u cyflwyno.<br><br>**Rhoi gwybod i'r awdurdod cymwys** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>Os yw'n hawdd cael gwared arnynt a'u rheoli<br><br>**Modd ei gywiro 2**<br>Os gellir eu difa a'u rheoli dros nifer o flynyddoedd<br><br>**Parhaol**<br>Os nad yw cael gwared arnynt yn fater hawdd. |
| **Lles anifeiliaid** | | | |
| **Tystiolaeth nad yw'r ffermwr yn cydymffurfio â'r canllawiau a'r rheoliadau ar les anifeiliaid, adar a phlanhigion.** | **Rhaid dweud wrth yr awdurdod cymwys: adolygu'r cytundeb yn ôl y canfyddiadau.** | | |

| Cod Arfer Ffermio Da. | | | |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth nad yw'r ffermwr yn cadw at y Cod Arferion Ffermio Da ar gyfer Aer, Pridd a Dŵr.** | **Gweler Arferion Ffermio Da neu Drawsgydymffurfio.** | | |
| **Mynediad i'r Cyhoedd - Rhaid i aelodau'r Cynllun ganiatáu mynediad i'r cyhoedd ar droed i Dir Agored yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy neu unrhyw hawl arall e.e. Deddf Corfforaeth Dŵr Birmingham yng Nghwm Elan.** | | | |
| **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r ffermwr yn cydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol am lwybrau cyhoeddus a thir sydd wedi'i ddiffinio fel Tir Agored o dan Ddeddf Hawliau Tramwy 2000.**<br><br>Sylwer: Dylai llwybrau fod yn ddirwystr bob amser a rhaid eu hadfer ar ôl eu haredig. | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1** |

# CYNLLUNIAU FFERMYDD

**Rhaid cwblhau cynllun Rheoli Adnoddau sylfaenol cyn pen 6 mis ar ôl dechrau'r cytundeb**
Rhaid i'r cynllun adlewyrchu busnesau'r fferm a'r arferion rheoli arni**:** Mae'n bosibl y bydd adrannau 3 a 4 y Cynllun yn gofyn ichi gwblhau Cynlluniau Rheoli Tail/Maethynnau. Os felly, dim ond gweddill y Cynllun Rheoli Adnoddau y bydd angen ei gwblhau o fewn 6 mis.

**Os bydd angen, rhaid cwblhau cynllun rheoli tail a chynllun rheoli maethynnau cyn pen 12 mis ar ôl dechrau'r cytundeb.**
Rhaid i'r cynlluniau adlewyrchu busnesau'r fferm a'r arferion rheoli arni.

| Disgrifiad o dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Nid yw'r cynllun Adnoddau wedi'i gwblhau nac wedi'i ddiweddaru** | **Isel:** os nad yw wedi'i ddiweddaru (h.y. y mae wedi'i gwblhau ond heb ei ddiweddaru i gynnwys newidiadau yn amgylchiadau'r fferm neu yn y gwaith ar y fferm.)<br><br>**Canolig:** nid yw wedi'i gwblhau at y safon ofynnol e.e. heb ateb yr holl gwestiynau na dilyn yr holl gamau. | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Nid yw cynllun Rheoli Adnoddau wedi'i gwblhau o fewn 6 mis ar ôl dechrau'r cytundeb.** | **Uchel:** nid yw wedi'i gwblhau o gwbl neu ni chafodd ei gyflwyno adeg archwiliad **rhwng 6 a 12 mis wedi dechrau'r cytundeb.** .<br><br>**Os na chafodd ei gwblhau neu ei gyflwyno ar gyfer ei archwilio o fewn 12 mis wedi dechrau'r cytundeb - daw'r cytundeb i ben.** | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>**Parhaol** |
| **Nid yw'r cynllun Rheoli Tail na'r cynllun Rheoli Maethynnau wedi'i gwblhau nac wedi'i ddiweddaru** | **Isel:** os nad yw wedi'i ddiweddaru (h.y. y mae wedi'i gwblhau ond heb ei ddiweddaru i gynnwys newidiadau yn amgylchiadau'r fferm neu yn y gwaith ar y fferm e.e. mwy o stoc neu lai o dir)<br><br>**Canolig:** nid yw wedi'i gwblhau at y safon ofynnol e.e. heb ateb yr holl gwestiynau na dilyn yr holl gamau. | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Ni chafodd y Cynllun Rheoli Tail neu'r Cynllun Rheoli Maethynnau ei gwblhau o fewn 12 mis ar ôl dyddiad dechrau'r cytundeb.** | **Uchel:** nid yw wedi'i gwblhau o gwbl neu ni chafodd ei gyflwyno adeg archwiliad **rhwng 12 a 18 mis wedi dechrau'r cytundeb.** .<br><br>**Os na chafodd ei gwblhau neu ei gyflwyno ar gyfer ei archwilio o fewn 18 mis wedi dechrau'r cytundeb - daw'r cytundeb i ben.** | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Parhaol** |

| Gofynion cyfreithiol | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw aelodau'r cynllun yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol.**<br><br>Gweler yr Atodiad - "Deddfwriaeth sy'n berthnasol i Amaethyddiaeth".<br><br>**Sylwer.** Mae angen penderfynu ai'r amodau trawsgydymffurfio sy'n cyfrif ar gynllun gafodd ei arwyddo ar ôl 01/01/07 ai peidio. Ar gynlluniau cyn 01/01/07, rhaid cofnodi'r ddau - trawsgydymffurfio a'r cynllun. | **Isel:** Caiff yr awdurdod cymwys wybod am achosion tybiedig o anghydymffurfio. Gallai arwain at fwy o gosbau o dan y Cynllun, gan ddibynnu ar ymateb yr awdurdod cymwys - gan ddefnyddio'r safonau dilysadwy perthnasol. | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>**Modd ei gywiro 2**<br><br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod llofnodwr y cytundeb wedi difrodi neu difetha SoDdGA.**<br><br>**Sylwer.** Rhaid rhoi gwybod i staff perthnasol tîm rhanbarthol CCGC am hyn. | **Gweler Arfer Ffermio Da / Trawsgydymffurfio** | | |

| Ymgynghoriad:<br>A oes tystiolaeth bod y datblygiadau/gweithgareddau canlynol wedi'u cynnal heb ymgynghori'n gyntaf â swyddog y prosiect. | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth bod adeiladau newydd wedi'u codi, bod adeiladau wedi'u haddasu neu bod adeiladau traddodiadol heblaw am y ffermdy ei hun wedi'u newid heb ymgynghori'n gyntaf â'r swyddogion perthnasol.**<br><br>**Nodyn i'r arolygydd:** Os ar dir cynefin, rhaid chwilio am dramgwyddau ar y tir cynefin. | **Isel:** Os cafwyd caniatâd cynllunio ond ni ymgynghorwyd ag awdurdod cymwys y cynllun.<br><br>**Canolig:** Dim caniatâd cynllunio wedi'i gael. | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>Gan y rhybuddir am y tramgwydd yn ystod yr archwiliad. |

| Disgrifiad o dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth bod traciau, ffyrdd, iardiau, mannau caled ac adeiladweithiau newydd wedi'u hadeiladu heb ymgynghori'n gyntaf â'r swyddogion perthnasol.**<br><br>**Nodyn i'r arolygydd:** Os ar dir cynefin, rhaid chwilio am dramgwyddau ar y tir cynefin. | **Isel:** Os cafwyd caniatâd cynllunio ond ni ymgynghorwyd ag awdurdod cymwys y cynllun.<br><br>**Canolig:** Dim caniatâd cynllunio wedi'i gael. | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>Gan y rhybuddir am y tramgwydd yn ystod yr archwiliad. |
| **Tystiolaeth bod perthi, cloddiau, waliau neu ffensys wedi'u hadeiladu heb ymgynghori'n gyntaf â'r swyddogion perthnasol.**<br><br>**Nodyn i'r arolygydd:** Os ar dir cynefin, rhaid chwilio am dramgwyddau ar y tir cynefin. | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>Gan y rhybuddir am y tramgwydd yn ystod yr archwiliad. |
| **Mae gwaith wedi'i wneud heb ymgynghori'n gyntaf â'r swyddogion perthnasol.**<br><br>Ailgyfeirio, carthu neu gronni cyrsiau dŵr, creu tynfa ddŵr newydd, cynyddu lefel tynfa ddŵr, neu newid lefelau dŵr.<br><br>Defnyddio tir neu ddŵr agored sydd o dan reolaeth llofnodwr y cytundeb ar gyfer chwaraeon a/neu hamdden masnachol a/neu ffurfiol a all wrthdaro ag amcanion amgylcheddol y cynllun.<br><br>Clirio prysgwydd, torri coed, neu plannu prysgwydd neu goed, ac unrhyw waith nad yw'n dod o dan gytundeb Cynllun Grantiau Coetir neu Gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru mewn coedlan.<br><br>Rheoli rhedyn neu rheoli rhedyn o dan y rhaglen gwaith cyfalaf.<br><br>Cloddio neu gadael sbwriel ar y tir neu cael gwared ag unrhyw wastraff o'r tu allan i'r fferm. (Ystyriaethau Asesu Amgylcheddol hefyd. Hefyd, Rheoliadau Gwastraff Amaethyddol o bosibl)<br><br>Creu safleoedd newydd ar gyfer porthi ychwanegol.<br><br>Gosod cafnau dŵr newydd heb ganiatâd. | **Isel:** Dim caniatâd.<br><br>Mae'n bosibl mai rheolau Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n cael eu torri. | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>Gan y rhybuddir am y tramgwydd yn ystod yr archwiliad. |

<table>
<tr><td colspan="4">B2) Rhaid cadw argloddiau, adeiladweithiau carreg hanesyddol, safleoedd archeolegol, adeiladau traddodiadol, parcdir a gerddi a'u diogelu rhag difrod. (Wedi'u marcio ar fap 1 y cytundeb neu adroddiad Archeolegol HE2).</td></tr>
<tr><td>Disgrifiad o dramgwydd</td><td>Difrifoldeb</td><td>Pa mor fawr</td><td>Pa mor barhaol</td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth bod difrod wedi'i wneud i argloddiau, adeiladweithiau carreg hanesyddol, safleoedd archeolegol, adeiladau traddodiadol, parcdir a gerddi.<br><br>Sylwer:<br>Holwch<br>• A oes tystiolaeth bod deunydd wedi'i gymryd o'r safle?<br>• a oes gwastraff, sbwriel neu rwbel ar y fferm.<br>• a yw lefelau pori'n achosi difrod i'r safleoedd hyn?<br>• a yw contractwyr a gweithwyr ar y fferm yn gwybod am y nodweddion hanesyddol, ac a ydynt yn cymryd camau priodol i osgoi gwneud difrod damweiniol ac i gydymffurfio â gofynion y cytundeb hwn.</td><td>Uchel</td><td>Maint 1</td><td>Modd ei gywiro 1<br><br>Modd ei gywiro 2<br><br>Parhaol</td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth nad yw'r Ymddiriedolaeth Archeolegol berthnasol wedi cael gwybod am ddarganfyddiadau archeolegol a wnaed ar yr wyneb yn ystod oes y cytundeb.</td><td>Isel</td><td>Maint 1</td><td>Modd ei gywiro 1<br>Gan yr hysbysir yn ystod yr archwiliad.</td></tr>
<tr><td>Mae llofnodwr y cytundeb wedi cynnal neu wedi caniatau gweithred heb gadw at amodau'r caniatâd ar gyfer gwaith a ymgymerir ar SAM. Mae gwaith o'r fath wedi'i gynnal heb ymgynghori'n gyntaf â'r swyddogion perthnasol.</td><td colspan="3">Gweler Trawsgydymffurfio/Arfer Ffermio Da</td></tr>
<tr><td colspan="4">i) Diogelu a Chynnal Nodweddion Archeolegol a Hanesyddol (wedi'u marcio ar fap 1 y cytundeb neu yn yr adroddiad Archeolegol HE2).</td></tr>
<tr><td>Disgrifiad o dramgwydd</td><td>Difrifoldeb</td><td>Pa mor fawr</td><td>Pa mor barhaol</td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth nad yw coed marw ansefydlog a allai o bosibl niweidio'r safle wedi cael eu symud o'r safle neu eu bod wedi'u codi o'r safle mewn ffordd amhriodol.</td><td>Isel: Nid yw coed a llwyni marw ac ansefydlog a allai niweidio'r safle wedi cael eu symud o'r safle<br><br>Uchel: Mae coed marw ac ansefydlog wedi'u codi o'r safle mewn ffordd amhriodol</td><td>Maint 1</td><td>Modd ei gywiro 1<br>Modd ei gywiro 2<br>Parhaol</td></tr>
</table>

| ii) Adeiladau Traddodiadol (wedi'u marcio ar fap 1 y cytundeb). | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r adeiladau traddodiadol sydd wedi'u marcio ar fap 1 yn cael eu cadw mewn cyflwr diddos.** | **Isel:** mân esgeulustod, lle bo angen peth gwaith cynnal a chadw e.e. trwsio llechi, cafnau dŵr ac ati.<br><br>**Canolig:** Esgeulustod difrifol sy'n effeithio ar adeiladwaith yr adeilad.<br><br>**Uchel:** Yr adeilad bellach yn amhosibl ei drwsio. | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw deunydd a dulliau adeiladu traddodiadol wedi'u defnyddio i gynnal adeiladau traddodiadol sydd heb eu haddasu.** | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Parhaol** |

| iii) Tirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw nodweddion y Parcdir a'r Gerddi Hanesyddol sydd wedi'u henwi yn y cytundeb wedi'u cynnal a'u cadw'n briodol.** | **Uchel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br><br>**Parhaol** |

| Cynefinoedd Natur ac Ymrwymiadau Amgylcheddol Eraill - y cyfan wedi'i farcio ar fap 2 y cytundeb. Rhaid peidio â gwneud y canlynol heb fod yr adran berthnasol yn y cynllun perthnasol yn caniatau hynny neu fod swyddog y prosiect wedi rhoi sêl bendith trwy lythyr. | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth eich bod wedi aredig, trin y tir, ail-hau heb ganiatâd.**<br><br>**Sylwer: O bosibl wedi torri trawsgydymffurfio GAEC K: SoDdGA: Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Ystyried rheoliadau AEA.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth eich bod wedi rholio neu llyfnu yn ystod y cyfnod gwaharddedig neu heb ganiatâd.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Tystiolaeth bod draeniau neu ffosydd newydd wedi'u gosod neu eu palu.**<br><br>**Sylwer:**Ystyried y rheoliadau asesu effeithiau amgylcheddol | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** –gan gynnwys lle byddai'r gwaith adfer yn arwain at fwy o ddifrod nag o fanteision. |
| **Tystiolaeth bod gwrteithiau anorganig, gwrteithiau organig wedi'u prynu, slyri, dom buarth a thail dofednod neu foch wedi'u defnyddio / eu gwasgaru / eu storio heb ganiatâd neu mewn ffordd amhriodol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod calch, slag basig, gwymon calchog, slwtsh papur gwastraff, gwastraff arall nad yw'n dod/sy'n dod o'r fferm, sylweddau eraill a allai newid asidedd y pridd wedi'u defnyddio / eu storio / eu gwasgaru heb ganiatâd neu mewn ffordd amhriodol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod mwy o losgi na'r codau llosgi arferol, hynny heb ganiatâd swyddog y prosiect neu heb gadw at amodau'r caniatâd.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth o borthi atodol ar gynefin neu mewn ardal lle ceir ymrwymiad ychwanegol heb ganiatâd swyddog y prosiect.**<br><br>Os nad oes difrod neu lle bydd modd cywiro'r difrod mewn tymor tyfu. Fel arall, Arfer Ffermio Da/GAEC. | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1** |

| Disgrifiad o dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth bod llystyfiant byw neu farw wedi'i dorri, ei ladd, ei docio neu ei godi heb ganiatâd neu mewn ffordd amhriodol, ac eithrio er mwyn rheoli marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan, rhododendron a Jac y neidiwr.**<br><br>**Sylwer.**Mae gwaith o'r fath wedi'i gynnal heb ymgynghori'n gyntaf â'r swyddogion perthnasol. | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod difrod wedi'i wneud i dwmpathau morgrug, heb eithriadau i ganiatau hynny.** | **Cymhedrol** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r cyfnodau pori na/neu'r lefau stocio priodol neu'r mathau o anifeiliaid a enwyd wedi'u cadw ar gynefinoedd.**<br><br>Sylwer. Holi a oes cynlluniau rheoli AGA/ACA | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Os oes cynllun rheoli coetir, nid yw'r cynllun wedi'i ddechrau cyn blwyddyn 8.** | **Isel:** os yn 2 fis cyntaf blwyddyn 8 / Fel arall, allan o'r cynllun. | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Tystiolaeth nad yw'r cynllun rheoli prysg (os oes un) wedi'i ddilyn.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r cynllun rheoli perllannau (os oes un) ar laswelltir wedi'i led-wella a'i wella yn cael neu wedi cael ei ddilyn.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r cynllun rheoli parcdir ar laswelltir wedi'i led-wella a'i wella a thir âr yn cael neu wedi cael ei ddilyn.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Nid oes dyddiadur pori priodol wedi'I ddangos** | **Isel:** os nad yw wedi'I ddiweddaru. (Wedi'I lenwi ond heb ei ddiweddaru mewn amgylchiadau neu arferion ffermio)<br><br>**Canolig:** os nad oes digon o fanylion iddilsu cyfraddau stoc blynyddol.<br><br>**Uchel:** os nad oes dyddiadur wedi'I gadw. | **Gradd 4** | **Modd ei Gywiro 1** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nid oes tystiolaeth bod gwartheg yn pori, fel stablad (sathru), olion carnau, dom gwartheg a llystyfiant garw heb ei bori.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei Gywiro 1**<br>**Modd ei Gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| | | | |
| **Tystiolaeth o orbori neu danbori**<br><br>Mae'r niferoedd penodol i'w gweld yn Atodiad 1 y cynllun pori.<br>Ni ddylid caniatau i gynefinoedd sy'n cael eu cyd-bori â thir wedi'i wella gael eu gorbori, hyd yn oed os nad oes amodau rheoli ar gyfer y darn hwnnw o dir.<br><br>Roedd tystiolaeth bod cynefinoedd yn cael eu gorbori neu eu tanbori.<br>NEU<br>Cynefinoedd lle roedd amod rheoli,<br>ac ar dir cynefin lle nad oes niferoedd penodol | **Gweler Trawsgydymffurfio/Arfer Ffermio Da** | | |
| **Disgrifiad o dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw llystyfiant ymledol wedi'i reoli'n briodol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad oedd gweirgloddiau wedi'u cau am 8 wythnos cyn eu lladd.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod caeau brwyn wedi'u tocio heb ganiatâd neu yn groes i'r caniatâd.**<br><br>**Sylwer.** Cewch docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf i gael gwared ar dyfiant bras. Rhaid cadw o leiaf 10% o'r glaswelltir / brwyn heb ei dorri neu ba % bynnag a nodir yn y cytundeb. Efallai y bydd angen caniatâd. | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r lefelau dŵr priodol yn cael eu cynnal.**<br>**neu**<br>**Nid yw'r rhaglen agor ffosydd yn cael neu wedi cael ei dilyn.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth nad oes coetir llydanddail wedi'i sefydlu neu ei gynnal mewn ffordd briodol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r coridorau ar lan nentydd yn ymestyn o leiaf 6 metr y tu hwnt i rimyn 1 metr adran y fferm gyfan.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth nad yw'r cynllun sefydlu gwelyau cyrs / corsydd newydd yn cael ei ddilyn.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw gweundir newydd yn cael neu wedi cael ei sefydlu'n briodol ar laswelltir wedi'i wella.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw morfeydd heli / gwelyau cyrs yn cael neu wedi cael eu sefydlu'n briodol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| Disgrifiad o dramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth nad yw twyni tywod newydd yn cael neu wedi cael eu sefydlu'n briodol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw rhimyn glas o 1 metr o led wedi'i sefydlu a'i gynnal wrth fôn ffiniau nad ydynt yn dod o dan amodau ffiniau traddodiadol adran y fferm gyfan.** | **Isel:**1 parsel<br>**Canolig:** 2+ | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1**<br>(Yn debygol o gael ei aredig yn unig, dim gwely hâd)<br><br>**Modd ei gywiro 2**<br><br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod prif gnwd anaddas wedi'i hau a/neu fod cnwd anaddas wedi'i hau o dan y prif gnwd.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw Opsiwn 28 (Talarau o Laswellt Garw) yn cael ei gynnal mewn lleoliad parhaol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth bod peiriannau'n mynd ar dir sy'n derbyn taliadau'r opsiwn tir âr (heblaw am gnydau gorchudd bywyd gwyllt) neu eu bod yn cael eu defnyddio fel traciau.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth bod peiriannau'n mynd ar Gnydau Gorchudd Bywyd Gwyllt.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r opsiynau creu cynefinoedd gafodd eu henwi yn y cytundeb wedi cael eu sefydlu.**<br><br>**Nodyn i'r arolygydd:** Hefyd, cosb am orddatgan | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw'r ymylon braenar di-gnwd wedi cael eu trin yn ystod y cyfnodau priodol.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1**<br>**Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad yw gwellt wedi'i gludo o'r safle ar ôl cynaeafu ŷd, had llin neu rêp.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Tystiolaeth nad yw'r ffermwr wedi cadw at ddyddiadau sefydlu a chynaeafu cnydau âr.** | **Mesuradwy** | **Mesuradwy** | **Modd ei gywiro 2**<br>**Parhaol**<br>Yn y flwyddyn ddiwethaf |

| Llwybrau Caniataol Ychwanegol - Yn ychwanegol at y gofynion o ran llwybrau cyhoeddus sy'n bod eisoes | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o dramgwydd** | **Difrifoldeb** | **Pa mor fawr** | **Pa mor barhaol** |
| **Tystiolaeth nad oes digon o arwyddion ar y llwybrau caniataol ychwanegol.** | **Isel** | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Tystiolaeth nad yw'r cyfleusterau mynediad newydd ar gyfer llwybrau caniataol newydd yn cael eu cynnig am ddim.** | **Uchel:** Dod â'r cynllun i ben o bosibl. | **Maint 4** | **Parhaol** |
| **Tystiolaeth nad oes gwybodaeth briodol ar y safle am reoli cŵn.** | **Isel** | **Maint 1** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Tystiolaeth nad yw'r Llwybr Caniataol Ychwanegol yn agored i'r cyhoedd bob amser (ac eithrio lle caniateir eithriadau)** | **Uchel** | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Tystiolaeth nad yw'r amserau y cytunwyd ar gyfer cau'r llwybrau caniataol ychwanegol yn cael eu gweithredu.** | **Isel** | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Nid yw'r ymweliadau addysgol yn cael eu cofnodi.** Sylwer: Dylai'r buddiolwr gadw ffurflenni gwerthuso ymweliadau ar gyfer pob ymweliad a hawlir (hyd at 6). | **Archwiliad gweinyddol. Lle cafwyd llai na 6 ffurflen gwerthuso ymweliadau Addysgol, cewch eich talu pro rata.** | | |
| **Nid oes pecyn addysgiadol addas wedi'i baratoi.** Sylwer. Dylai'r buddiolwr brintio gwybodaeth addysgiadol er lles y grwpiau sy'n ymweld â'r fferm. | **Isel:** Os nad yw wedi'i hawlio eto fel rhan o'r rhaglen gwaith cyfalaf. | **Maint 4** | **Modd ei gywiro 1** |

| Y gofyn i roi gwybod inni pan fyddwch yn gwerthu / trosglwyddo tir | | | |
|---|---|---|---|
| Tramgwydd | Difrifoldeb | Pa mor fawr | Pa mor barhaol |
| **Rhaid rhoi gwybod eich bod wedi gwerthu neu drosglwyddo tir cyn pen 30 diwrnod** | **Isel:**<br>**Wedi cael gwybod ond nid o fewn 30 diwrnod** | **1** | **Modd ei gywiro 1** |
| | **Canolig:**<br>**Heb gael gwybod o gwbl** | **1** | **Modd ei gywiro 1** |
| **Rhaid rhoi gwybod eich bod wedi gwerth neu drosglwyddo tir cyn pen 3 mis.** | **Isel:**<br>**Wedi cael gwybod ond nid o fewn 3 mis** | **1** | **Modd ei gywiro 1** |
| | **Canolig:**<br>**Heb gael gwybod o gwbl** | **1** | **Modd ei gywiro 1** |

| Creu amodau ffug i gael hawlio taliad | |
|---|---|
| Tramgwydd | Adfer arian |
| **Tystiolaeth bod amodau ffug yn cael eu cynnal er mwyn cael hawlio taliad.** | **Ni chaiff arian ei dalu i'r ffermwr yn y flwyddyn pan y gwnaeth ei hawlio.** |

| Cadw tir o dan yr ymrwymiad | |
|---|---|
| Tramgwydd | Adfer arian |
| **O ganlyniad i dynnu tir allan o'r cytundeb, mae llai o dir ar ôl nag sy'n ofynnol o dan reolau'r Cynllun** | **Rhaid adfer yr holl arian a dod â'r cytundeb i ben.**<br><br>**Ar gyfer cynlluniau sy'n parhau ar ôl yr adolygiad 5-mlynedd, dylid adfer yn unig arian ers yr adolygiad.** |

## ATODIAD 1:

**<u>Deddfwriaeth</u>**

Mae'r tabl yn dangos y ddeddfwriaeth genedlaethol briodol sy'n berthnasol i weithgarwch amaethyddol.

**Wedi'u rhestru yn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da**

| Y Ddeddfwriaeth | Y Corff sy'n ei Rhoi ar Waith |
|---|---|
| **GWASTRAFF** | |
| **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**<br>Dyma brif amcanion Rhan 1:<br>a) Rhwystro sylweddau penodol rhag cael eu rhyddhau, rhyddhau llai ohonynt, neu gwneud y sylweddau a ryddheir yn ddiniwed;<br>b) Datblygu dull o reoli llygredd o brosesau diwydiannol i bob cyfrwng yng nghyd-destun ei effaith ar yr amgylchedd cyfan. | Llywodraeth Cynulliad Cymru / awdurdodau lleol |
| **Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 1994 (Diwygiwyd 2005)**<br>Mae Rheoliadau 1994 yn rhestru rhai gweithgareddau nad oes angen trwydded wastraff arnynt ac maen nhw hefyd yn cefnogi opsiynau cynaliadwy, ariannol ddeniadol ac amgylcheddol gadarn ar gyfer adfer gwastraff gwerthfawr. | Llywodraeth Cynulliad Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005**<br>Yn diffinio'r gwastraff peryglus a bennir gan yr UE. Mae'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru safleoedd sy'n cynhyrchu gwastraff peryglus ac yn rhestru'r amodau ar gyfer y rheini sy'n trin gwastraff peryglus. | Llywodraeth Cynulliad Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002**<br>Yn sicrhau bod safleoedd tirlenwi yn cael eu lleoli, eu rheoli ac ati yn briodol. | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006**<br>Yn rheoleiddio'r ffordd y mae carcasau a sgil-gynhyrchion nad ydynt i'w bwyta gan bobl yn cael eu gwaredu. | Awdurdod Lleol |

| LLES ANIFEILIAID | |
|---|---|
| **Deddf Lles Anifeiliaid 2006**<br>Mae dyletswydd gyfreithiol ar berchnogion a cheidwaid i sicrhau eu bod yn gofalu am les eu hanifeiliaid, yn unol â'r 'arfer da'. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Lloegr) 2001**<br>**(Wedi'i ddiwygio ar gyfer Cymru) 2001 - 2007**<br>Yn rhoi deddfwriaeth yr UE ar waith mewn cysylltiad ag amddiffyn anifeiliaid sy'n cael eu ffermio a'r safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn rhywogaethau penodol.<br>Gwneir y Rheoliad o dan adran 12 Deddf Lles Anifeiliaid 2006. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2006** | Llywodraeth Cynulliad Cymru / Swyddfa'r Prif Filfeddyg |

| DŴR; | |
|---|---|
| **Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003**<br>Rhaid cynnal asesiadau AEA ar gyfer prosiectau rheoli dŵr at bwrpas amaeth, gan gynnwys prosiectau dyfrhau, a allai gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Deddf Cronfeydd 1975**<br>Dyma'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer sicrhau diogelwch cronfeydd Prydain sy'n dal o leiaf 25,000 m3 o ddŵr. | Asiantaeth yr A mgylchedd Cymru |
| **Deddf Adnoddau Dŵr 1991**<br>Yn rheoleiddio gweithgareddau Asiantaeth yr Amgylchedd o safbwynt amgylchedd y dŵr. Mae cyfrifoldeb ar yr Asiantaeth i amddiffyn dŵr daear rhag llygredd, pennu amcanion ansawdd ar gyfer dyfroedd rheoledig a rhoi caniatadau ar gyfer gollwng i gyrsiau dŵr. Mae'r ddeddf yn rhoi'r hawl i'r Asiantaeth i greu parthau amddiffyn dŵr a phennu parthau perygl nitradau. | Asiantaeth yr Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| **Rheoliadau Dŵr Daear 1998**<br>Amddiffyn dŵr daear trwy reoli'r ffordd y mae deunyddiau a allai ei niweidio neu'i lygru yn cael eu gollwng neu eu gwaredu. | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991 (fel y'u diwygiwyd 1997)**<br>Rheoli llygredd gwasgaredig o'r ffynonellau hyn. | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rheoliadau Rheoli ac Atal Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000, fel y'u diwygiwyd 2002**<br>Mae'r Rheoliadau hyn, a wnaed o dan *Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999*, yn darparu ar gyfer system newydd ar gyfer rheoli llygredd o'r enw Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig (IPPC). Ar gyfer diwydiant gan gynnwys amaethyddiaeth rhwng 2000 a 2007. | Asiantaeth yr Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| **AER** | |
| Mae **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adran 8** yn atal llygru'r aer, tir a dŵr o brosesau rhestredig. | Adrannau Iechyd yr Amgylchedd<br>Awdurdodau Lleol |
| **Deddf Aer Glân 1993**<br>Yn ymdrin â llygredd mwg, grit a llwch o danau a phrosesau nad ydyn nhw'n dod o dan gyfreithiau eraill. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

| | |
|---|---|
| **PRIDD** | |
| **Rheoliadau Slwtsh (mewn amaethyddiaeth) 1989**<br>Safonau ar gyfer defnyddio slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth. Mae'r Rheoliadau yn rhoi Cyfarwyddeb 86/278 EEC y Cyngor 12 Mehefin 1986 ar ddiogelu'r amgylchedd, yn enwedig y pridd, pan ddefnyddir slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth, ar waith | Asiantaeth yr Amgylchedd |

| CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU | |
|---|---|
| **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd 1991)**<br>Dyma'r ddeddf bwysicaf ar gyfer gwarchod anifeiliaid a phlanhigion Prydain. Dyma'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r Confensiwn ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (Confensiwn Bern) a Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwyllt (79/409/EEC) ac ar Gynefinoedd Natur a Ffawna a Fflora Gwyllt (92/43/FFC) ar waith ym Mhrydain. | Llywodraeth Cynulliad Cymru / CCGC |
| **Deddf Gwarchod Moch Daear 1992**<br>Yn amddiffyn moch daear a'u brochfeydd. Mae'n drosedd lladd, anafu a dal mochyn daear, neu ddifrodi neu amharu ar frochfa heb drwydded oddi wrth awdurdod statudol. | Llywodraeth Cynulliad Cymru / CCGC |
| **Rheoliadau asesu'r effeithiau amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled Naturiol) (Cymru) 2002** Cyfle i ystyried a yw newidiadau amaethyddol ar dir lled-naturiol yn effeithio ar yr amgylchedd cyn rhoi caniatâd i fwrw ymlaen â'r newidiadau, hyn er mwyn amddiffyn tir o bwys arbennig i'r amgylchedd. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

| PLALADDWYR | |
|---|---|
| **Rhan III Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985**<br>**Rhan III FePA 1985 -** trwyddedu plaladdwyr a chynnyrch cysylltiedig at bwrpas diogelu pobl, anifeiliaid a phlanhigion a'r amgylchedd, a sicrhau ffyrdd diogel, effeithiol a 'charedig' o reoli plaon. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rheoliad Rheoli Plaladdwyr (COPR) 1986**<br>Mae Rheoliadau Rheoli Plaladdwyr 1986 yn ymrwymo defnyddwyr plaladdwyr i gymryd camau rhesymol i ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, i warchod yr amgylchedd ac yn arbennig, i osgoi llygru dŵr. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion 1997 (fel y'u diwygiwyd 2005)**<br>Yn diffinio amodau ar gyfer gwerthu, cyflenwi, storio, hysbysebu a defnyddio plaladdwyr sydd wedi'u cymeradwyo o dan y Rheoliad. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

| IECHYD A DIOGELWCH | |
|---|---|
| **Rheoliad Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**<br><br>Yn ymrwymo cyflogwyr i reoli Iechyd a Diogelwch yn well ac esbonio'r gofynion. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd & Diogelwch |
| **Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd)**<br>Rheoli cemegion a sylweddau peryglus eraill yn y gweithle. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd & Diogelwch |
| **Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992**<br><br>Yn pennu'r egwyddorion ar gyfer sicrhau bod offer diogelu yn addas ar gyfer y defnyddiwr ac at y gwaith y bydd yn ei ddiogelu rhagddo. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd & Diogelwch |
| **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974**<br><br>Rhaid i gyflogwyr wneud popeth sy'n rhesymol i amddiffyn eu gweithwyr yn y gwaith, rhaid i weithwyr ddiogelu'u hiechyd eu hunain a rhaid defnyddio sylweddau'n ddiogel. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd & Diogelwch |
| **Deddf Priffyrdd 1980 (fel y'u diwygiwyd gan Deddf Hawliau Tramwy 1990)**<br>Mae'r gwelliant yn newid y gyfraith ynghylch hawliau tramwy ac ar aflonyddu ac adfer y tir y mae hawliau tramwy yn pasio drosto: cadw hawliau tramwy oddi wrth gnydau; galluogi awdurdodau lleol i weithredu yn hyn o beth ac at ddibenion cysylltiedig. | Awdurdod Lleol |
| **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br><br>Yn rheoleiddio'r holl drefniadau cynllunio | Awdurdodau Lleol |

**Deddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Canllawiau Trawsgydymffurfio**

| Y Ddeddfwriaeth | Y Corff sy'n ei Rhoi ar Waith |
|---|---|
| **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (diwygiwyd 1991)**<br>Dyma'r ddeddf bwysicaf ar gyfer gwarchod anifeiliaid a phlanhigion Prydain (gan gynnwys adar hela). Dyma'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r Confensiwn ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (Confensiwn Bern) a Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwyllt (79/409/EEC) ac ar Gynefinoedd Natur a Ffawna a Fflora Gwyllt (92/43/FFC) ar waith ym Mhrydain. | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| **Rheoliadau asesu'r effeithiau amgylcheddol ar gyfer defnyddio Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled Naturiol 2002**<br>Cyfle i ystyried a yw newidiadau amaethyddol ar dir lled-naturiol yn effeithio ar yr amgylchedd cyn rhoi caniatâd i fwrw ymlaen â'r newidiadau, hyn er mwyn amddiffyn tir o bwys arbennig i'r amgylchedd. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rheoliadau Dŵr Daear 1998**<br>Mesur i amddiffyn yr amgylchedd, sy'n rhoi Cyfarwyddeb Dŵr Daear (80/68/EEC) yn ei chyfanrwydd ar waith ac yn amddiffyniad cryfach i ddŵr daear rhag llygredd. | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Y Gyfarwyddeb Nitradau 1991**<br>Mesur i leihau llygru dŵr gan nitradau amaethyddol. | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rheoliadau Slwtsh (mewn amaethyddiaeth) 1989 - a ddiwygiwyd 1990**<br>Safonau ar gyfer defnyddio slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth. Mae'r Rheoliadau yn rhoi Cyfarwyddeb 86/278 EEC y Cyngor 12 Mehefin 1986 ar ddiogelu'r amgylchedd, yn enwedig y pridd, pan ddefnyddir slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth, ar waith | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rheoliadau Hylendid Bwyd 2006**<br>Mesurau i sicrhau bod y rheini sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yn cymryd y camau priodol i reoli peryglon posibl i fwyd - yn berthnasol i bawb sy'n cynhyrchu bwyd gan gynnwys ffermwyr a thyfwyr a'r rheini sy'n cynhyrchu porthiant | Llywodraeth Cynulliad Cymru / awdurdodau lleol |
| **Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 - Rheoliadau Llosgi Sofl**<br>Yn rheoli llygredd aer o losgi gweddillion cnydau ar dir amaethyddol. | Llywodraeth Cynulliad Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| **Deddf Chwyn Niweidiol 1979**<br>Rheoli pum math o chwyn sy'n niweidiol i amaethyddiaeth ac anifeiliaid. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rheoliadau Perthi 1997**<br>Darpariaeth i ystyried a fydd dymchwel perth yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd neu'r tirwedd hanesyddol. | Awdurdod Lleol |
| **Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979.**<br>Amddiffyn a diogelu henebion | CADW |
| **Rheoliadau Grug a Phorfa ac ati (Llosgi) 1986**<br>Rheoli llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin a *Vaccinium* yng Nghymru a Lloegr. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Cadw Coed) 1969 (fel y'u diwygiwyd ym 1975, 1981 a 1988)**<br>Diogelu coed ag iddynt arwyddocâd o safbwynt hanes, y tirlun a'r amgylchedd. | Awdurdodau Lleol |
| **Deddf Coedwigaeth 1967 (Rhan II) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Coed 1970 a Deddfau Coedwigaeth 1979 a 1986.**<br>**Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 (fel y'u diwygiwyd 1987)**<br>**Rheoliadau Coedwigaeth (Eithriadau i'r Cyfyngiadau ar Gwympo Coed) 1979 (fel y'u diwygiwyd 1985, 1988).**<br>**Rheoliadau Coedwigaeth (Addasu'r Cyfyngiadau ar Gwympo Coed) 1985.**<br>Rheoli'r ffordd y mae coed yn cael eu cwympo a'r trwyddedau. | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |